# Ffurflen gydsynio i radiotherapi ar gyfer sarcoma – tiwmorau esgyrn a meinweoedd meddal (y bongorff, y frest, yr abdomen a'r pelfis)

The Royal College of Radiologists

Dim ond os yw'r claf dros 16 oed a bod ganddo'r galluedd i gydsynio y dylid defnyddio'r ffurflen hon. Os nad oes gan y claf y galluedd yn gyfreithiol, defnyddiwch ffurflen gydsynio amgen briodol gan eich ysbyty.

## Manylion y claf

**Enw'r claf:** ______________________

**Dyddiad geni:** ______________________

**Dynodydd unigryw'r claf:** ______________________

**Enw'r ysbyty:** ______________________

**Oncolegydd ymgynghorol neu radiograffydd therapiwtig ymgynghorol cyfrifol:** ______________________

**Gofynion arbennig:** e.e. trafnidiaeth, cyfieithydd ar y pryd, cymorth

______________________

## Manylion y radiotherapi

| | |
|---|---|
| **Math o radiotherapi:** | **Radiotherapi pelydr allanol** |
| **Rhan o'r corff ac ochr:** | ☐ **Nodwch, gan gynnwys yr ochredd:** ______________________ |
| **Nod y driniaeth:**<br>(Ticiwch fel y bo'n briodol) | ☐ **Neo-gynorthwyol** – triniaeth a roddir cyn llawdriniaeth<br>☐ **Cynorthwyol** – triniaeth a roddir ar ôl llawdriniaeth i leihau'r risg y bydd y canser yn dychwelyd<br>☐ **Diffiniol** – heb lawdriniaeth<br>☐ **Lliniarol** – i wella eich symptomau a/neu'ch helpu i fyw yn hirach ond nid i wella eich canser |
| **Therapi gwrth-ganser systemig cydredol, gan gynnwys cemotherapi:**<br>(Ticiwch fel y bo'n briodol) | ☐ **Ie gyda** ______________________<br>Gall sgil-effeithiau radiotherapi gynyddu wrth gael therapi gwrth-ganser systemig cydredol. Bydd ffurflen gydsynio ar wahân yn cwmpasu sgil-effeithiau'r driniaeth hon.<br>☐ **Na** |

**Efallai y bydd gennych gwestiynau cyn dechrau eich radiotherapi, neu yn ystod neu ar ôl y driniaeth.**

Rhoddir manylion cyswllt yma ar gyfer unrhyw ymholiadau pellach, pryderon neu os hoffech drafod eich triniaeth ymhellach.

______________________


Ewch i www.rcr.ac.uk/RT-consent-forms i weld y fersiwn ddiweddaraf © Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 2025.

**Enw'r claf:** ______________________ **Dynodydd unigryw'r claf:** ______________________

## Sgil-effeithiau cynnar neu dymor byr posibl

**Yn dechrau yn ystod radiotherapi,yn gallu bod ar eu gwaethaf yn fuan ar ôl cwblhau radiotherapi ac, fel arfer, yn diflannu o fewn dau i chwe mis ar ôl cwblhau radiotherapi. Mae'r amlderau yn rhai bras.**

| | **Disgwyliedig** 50%–100% | **Cyffredin** 10%–50% | **Llai cyffredin** Llai na 10% | **Anghyffredin** Llai nag 1% | **Ddim yn berthnasol i chi** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Risgiau cyffredinol radiotherapi** | | | | | |
| **Blinder** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Cyfog a/neu chwydu** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Diffyg archwaeth** – a all arwain at golli pwysau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Cymhlethdodau o ran clwyfau** – a all olygu bod angen rhwymyn, gwrthfiotigau, draenio, pacio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Cymhlethdodau o ran clwyfau** – a all olygu bod angen llawdriniaeth, gan gynnwys grafftiad yn methu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Risg o haint** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Oedema** – chwydd yn yr ardal lle rhoddir triniaeth gan fod hylif yn cronni | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Arwydd Lhermitte** – newidiadau dros dro i fadruddyn y cefn sy'n peri i chi deimlo rhywbeth tebyg i sioc drydanol sydyn wrth blygu'r gwddf. Gallant ddigwydd dri i chwe mis ar ôl y driniaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Y croen (lle rhoddir triniaeth)** | | | | | |
| **Y croen yn boenus, yn cosi neu'n newid lliw lle rhoddir triniaeth** – **croen gwyn/goleuach:** pinc, coch, yn dywyllach na'r ardal o amgylch; **croen brown:** browngoch neu'n dywyllach na'r ardal o amgylch; **croen du:** yn dywyllach na'r ardal o amgylch, y lliwiau yn newid rhwng melyn/porffor/llwyd. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Methiant y croen lle rhoddir triniaeth** – nawsio, diferu, magu crachen a/neu waedu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Gwallt yn teneuo neu golli gwallt lle rhoddir triniaeth** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Gweithrediad y Cymalau/Cyhyrau** | | | | | |
| **Anystwythder yn y cymalau** – ystod lai o symudiadau dros gymalau/cyhyrau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Ansymudoldeb y cymalau** – a all effeithio ar weithrediad y cymalau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Y frest** | | | | | |
| **Llid yr oesoffagws** – a all achosi poen a/neu ei gwneud yn anodd llyncu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Llid yr ysgyfaint** – a all achosi diffyg anadl a/neu besychu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Llais cryg** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Parhau ar y dudalen nesaf**

**Enw'r claf:** ____________________  **Dynodydd unigryw'r claf:** ____________________

## Sgil-effeithiau cynnar neu dymor byr posibl parhad

| | **Disgwyliedig** 50%–100% | **Cyffredin** 10%–50% | **Llai cyffredin** Llai na 10% | **Anghyffredin** Llai nag 1% | **Ddim yn berthnasol i chi** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr abdomen a/neu'r Pelfis** | | | | | |
| **Cynnydd o ran amlder ysgarthu** – (ysgarthu'n amlach na'r arfer) a/neu **frys ysgarthu** (awydd sydyn i ysgarthu) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Poen/cosi yn y rhefr neu'r anws a/ neu deimlo eich bod heb wagio eich coluddyn yn llwyr** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Carthion mwy rhydd gyda mwy o fwcws neu wynt** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Anymataliaeth** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Gwaedu o'ch pledren neu'ch coluddyn** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Amlder wrinol** – (pasio wrin yn amlach na'r arfer) a/neu **anesmwythder wrth basio wrin**, a/neu **frys wrinol** (awydd sydyn i basio wrin) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Methu â phasio wrin** – gall fod angen cathetr wrinol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Anymataliaeth wrinol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Poen yn y wain, y wain yn cosi neu redlif o'r wain** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Risgiau penodol sy'n ymwneud â'r ardal lle rhoddir triniaeth** | | | | | |

**Rwy'n cadarnhau** bod y sgil-effeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi.

**Blaenlythrennau'r claf** ☐

 © Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 2025.

Enw'r claf: ______________________ Dynodydd unigryw'r claf: ______________________

## Sgil-effeithiau hwyr neu dymor hir posibl

**Gallant ddigwydd fisoedd neu flynyddoedd lawer ar ôl triniaeth radiotherapi a gallant fod yn barhaol. Mae'r amlderau yn rhai bras.**

| | Disgwyliedig 50%–100% | Cyffredin 10%–50% | Llai cyffredin Llai na 10% | Anghyffredin Llai nag 1% | Ddim yn berthnasol i chi |
|---|---|---|---|---|---|
| **Risgiau cyffredinol radiotherapi** | | | | | |
| **Lymffoedema** – hylif yn cronni yn y breichiau a'r coesau a all arwain at chwydd, poen a/neu broblemau symud | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Niwed i'r nerfau** – a all achosi poen, diffyg teimlad/oglais neu wendid | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Niwed i fadruddyn y cefn** – a all achosi newid o ran teimlad a/neu wendid yn y breichiau a'r coesau a/neu newid yng gweithrediad y coluddyn/pledren. Yn anaml iawn, gall hyn gynnwys parlys | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Torasgwrn annigonedd** – torasgwrn sy'n datblygu yn yr asgwrn lle rhoddir triniaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Clwyfau'n arafach yn gwella** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Mwy o risg o ganser gwahanol lle rhoddir triniaeth** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Risg i fywyd** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Y croen (lle rhoddir triniaeth)** | | | | | |
| **Pibellau gwaed bach y gellir eu gweld sy'n edrych fel marciau corynnaidd** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Newid parhaol i liw y croen** – yn oleuach neu'n dywyllach ar gyfer unrhyw liw croen fel arfer **a/neu newid i ansawdd y croen** (yn fwy trwchus neu'n deneuach) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Y croen yn fwy sensitif i olau'r haul** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Colli gwallt yn barhaol** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Gweithrediad y Cymalau/Cyhyrau** | | | | | |
| **Poen hirdymor lle rhoddir triniaeth** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Anystwythder yn y cymalau** – ystod lai o symudiadau dros gymalau/cyhyrau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Ansymudoldeb y cymalau** – a all effeithio ar weithrediad y cymalau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Y frest** | | | | | |
| **Risg o niwed i'r galon** – yn arwain at gynnydd yn y risg o glefyd y galon yn ddiweddarach mewn bywyd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Chwarren thyroid danweithredol** – a allai olygu bod angen i chi gymryd meddyginiaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Culhad yr oesoffagws** – y gall fod angen ei ymledu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Parhau ar y dudalen nesaf**


Ewch i www.rcr.ac.uk/RT-consent-forms i weld y fersiwn ddiweddaraf © Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 2025.

Enw'r claf: ______________________ Dynodydd unigryw'r claf: ______________________

## Sgil-effeithiau hwyr neu dymor hir posibl parhad

| | Disgwyliedig 50%–100% | Cyffredin 10%–50% | Llai cyffredin Llai na 10% | Anghyffredin Llai nag 1% | Ddim yn berthnasol i chi |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ffibrosis yr ysgyfaint** – a all achosi diffyg anadl a/neu beswch cronig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Yr abdomen a/neu'r Pelfis** | | | | | |
| **Amlder ysgarthu** – (ysgarthu'n amlach na'r arfer), a/neu **garthion mwy rhydd** a/neu **frys ysgarthu** (awydd sydyn i ysgarthu) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Poen yn y rhefr neu'r anws** – gall hyn achosi poen wrth ysgarthu ac effeithio ar eich bywyd rhywiol os byddwch yn cael rhyw rhefrol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Rhedlif ysgarthol a/neu anymataliaeth** (baeddu) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Wlser dwodenol neu waedu o'r bledren neu'r coluddyn a all olygu bod angen llawdriniaeth** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Camamsugno** – problemau o ran amsugno maetholion | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Amlder wrinol** – (pasio wrin yn amlach na'r arfer) a/neu **anesmwythder wrth basio wrin**, a/neu **frys wrinol** (awydd sydyn i basio wrin) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Wrin yn gollwng** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Gostyngiad yng ngweithrediad yr arennau** – heb symptomau fel arfer ond gall ddangos ar ganlyniadau profion gwaed | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Risg o niwed i organau** – gan gynnwys culhad, twll (rhwyg) neu ffistwla (cysylltiad annormal), a all olygu bod angen llawdriniaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Gostyngiad yng ngweithrediad y ddueg** – gan arwain at gynnydd yn y risg o haint a'r angen am wrthfiotigau/brechlynnau proffylactig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Gostyngiad yng ngweithrediad y pancreas** – gan arwain at gynnydd yn y risg o ddiabetes neu ddolur rhydd cronig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Anffrwythlondeb** – methu â chynhyrchu wy/sberm hyfyw, neu'r groth yn methu â chario ffetws | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Menopos cynnar** – gall y symptomau ddechrau yn ystod radiotherapi neu'n fuan ar ôl ei gwblhau. Ni fyddwch yn gallu cynhyrchu wyau na hormonau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Y wain yn culhau neu'n byrhau neu wain sych** – gall hyn effeithio ar gyfathrach rywiol drwy'r wain. Efallai y cewch eich cynghori i ddefnyddio ymledyddion y wain ar ôl cael y driniaeth er mwyn lleihau'r risg hon | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Lefelau isel o destosteron** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Problemau cael codiad** | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Risgiau penodol sy'n ymwneud â'r ardal lle rhoddir triniaeth** | | | | | |

**Rwy'n cadarnhau** bod y sgil-effeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi.

**Blaenlythrennau'r claf** ☐

 © Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 2025.

**Enw'r claf:** **Dynodydd unigryw'r claf:**

## Datganiad y gweithiwr iechyd proffesiynol

(i'w lenwi gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol am y driniaeth arfaethedig)

– Rwyf wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i gynnwys, amcanion bwriadedig y driniaeth hon a'i sgil-effeithiau.
– Rwyf hefyd wedi trafod manteision a risgiau unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael gan gynnwys dim triniaeth.
– Rwyf wedi trafod unrhyw bryderon penodol sydd gan y claf hwn.

Rhoddwyd taflen wybodaeth i gleifion: ☐ Do / ☐ Naddo – Manylion:

Rhoddwyd copi o'r ffurflen gydsynio i'r claf: ☐ Do / ☐ Naddo

**Llofnod:** **Dyddiad:**

**Enw:** **Teitl swydd:**

## Datganiad y claf

- Mae nodau a sgil-effeithiau posibl y driniaeth wedi'u hesbonio i mi ac rwyf wedi cael cyfle i drafod triniaeth amgen, ac rwy'n cytuno i gael y driniaeth a ddisgrifir ar y ffurflen hon.
- Rwy'n deall na ellir gwarantu y bydd unrhyw unigolyn penodol yn rhoi'r radiotherapi. Fodd bynnag, bydd yr unigolyn yn meddu ar arbenigedd priodol.
- Soniwyd wrthyf am driniaethau ychwanegol sy'n angenrheidiol cyn fy nhriniaeth neu a all fod yn angenrheidiol yn ystod fy nhriniaeth. Gall hyn gynnwys marciau parhaol ar y croen a ffotograffau i helpu i gynllunio a nodi triniaethau.
- Rwy'n cytuno y gall gwybodaeth a gesglir yn ystod fy nhriniaeth, gan gynnwys delweddau a'm cofnodion iechyd, gael eu defnyddio ar gyfer addysg, gwaith archwilio ac ymchwil. Bydd unrhyw wybodaeth a ddefnyddir yn ddienw. Rwy'n ymwybodol y gallaf dynnu fy nghydsyniad yn ôl unrhyw bryd.

**Ticiwch os yw'n berthnasol**

☐ Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw risg y gallwn fod yn feichiog.

☐ Rwy'n deall na ddylwn feichiogi yn ystod y driniaeth.

**Noder:** os oes unrhyw bosibilrwydd eich bod yn feichiog, rhaid i chi ddweud wrth eich meddyg ysbyty/gweithiwr iechyd proffesiynol cyn cael triniaeth gan y gall hyn arwain at niwed sylweddol i ffetws yn y groth. Nid yw testosteron a thriniaethau hormon eraill yn ddulliau atal cenhedlu.

☐ Rwy'n deall petawn yn parhau i smygu y gallai gael effaith sylweddol ar y sgil-effeithiau y byddaf yn eu profi ac effeithiolrwydd fy nhriniaeth.

☐ Nid oes gennyf reolydd calon na diffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy (ICD).

**Neu**

☐ Mae gennyf reolydd calon a/neu ddiffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy (ICD) ac mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u hesbonio i mi.

**Llofnod:**

**Enw'r claf:** **Dyddiad:**

**Datganiad:**
☐ **cyfieithydd ar y pryd**
☐ **tyst** (lle y bo'n briodol)

☐ Rwyf wedi dehongli'r wybodaeth yn y ffurflen hon i'r claf hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd sydd, yn fy marn i, yn ddealladwy iddo.

**neu**

☐ Rwy'n cadarnhau na all y claf lofnodi ond ei fod wedi cydsynio i gael y driniaeth.

**Llofnod:**

**Enw:**

**Dyddiad:**

### Cadarnhad o gydsyniad y claf

(I'w lofnodi cyn i'r radiotherapi ddechrau)

**Rwy'n cadarnhau** nad oes gennyf unrhyw gwestiynau pellach ac fy mod am gael y driniaeth.

**Blaenlythrennau'r claf**

**Dyddiad:**


Ewch i www.rcr.ac.uk/RT-consent-forms i weld y fersiwn ddiweddaraf © Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 2025.